



Gwasanaeth Effeithiolrwydd a  
Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru

Regional School Effectiveness &  
Improvement Service for North Wales

# Bwletin GwE

## Cynnig GwE ar G6

Fel y gwyddoch, mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnig ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 [<https://g6.gwegogledd.cymru>].

**Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6.**

Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y **ddolen hon** a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau **yma**.

### ★ DIGWYDDIADAU O RWAN TAN Y NADOLIG ★

HYFFORDDIANT	DYDDIAD	LLEOLIAD
BIOLEG – Cyfarfod Pwnc Gwyddoniaeth Uwchradd [Prifysgol Bangor]	05/12/2018	Prifysgol Bangor
CEMEG – Cyfarfod Pwnc Gwyddoniaeth Uwchradd [Bae Colwyn]	05/12/2018	GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn
FFISEG – Cyfarfod Pwnc Gwyddoniaeth Uwchradd [Yr Wyddgrug]	05/12/2018	Gwesty Beaufort Park, Yr Wyddgrug
Cracio'r Cod – Cynradd [Saesneg – Yr Wyddgrug]	05/12/2018	GwE, Linden House, Yr Wyddgrug
Cracio'r Cod – Anturiaethau Pellach gyda 'Crumble' [Cynradd – Dwyieithog – Bangor]	06/12/2018	Tŷ Menai, Bangor
Lleihau'r Anfantais mewn Gwyddoniaeth	06/12/2018	Venue Cymru, Llandudno
CEMEG: Hyfforddiant Ysgol Hwb – Codi Safonau mewn Cemeg [Yr Wyddgrug]	11/12/2018	Ysgol Alun, Yr Wyddgrug
Gwyddoniaeth - Herio Disgyblion Mwy Abl [Uwchradd - Saesneg - Ysgol Friars Bangor]	13/12/2018	Ysgol Friars, Bangor
BIOLEG: Hyfforddiant Ysgol Hwb – Codi Safonau mewn Bioleg [Yr Wyddgrug]	18/12/2018	Ysgol Alun, Yr Wyddgrug

### ★ DIGWYDDIADAU'R PYTHEFNOS GYNTAF YN Y FLWYDDYN NEWYDD ★

HYFFORDDIANT	DYDDIAD	LLEOLIAD
1C Ymsefydlu i ANG [Plas Menai]	08/01/2019	Plas Menai, Caernarfon
CLEAPSS: Cadwch yn Ddiogel! Iechyd a Diogelwch mewn Gwyddoniaeth ymarferol i Athrawon Newydd [Uwchradd - Saesneg]	09/01/2019	Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno
<i>Building Skills</i> – Hyfforddiant Therapi Lego	14/01/2019	I'w gadarnhau
1C Ymsefydlu i ANG [Llanelwy]	16/01/2019	OpTIC, Llanelwy
Modelu Effeithiol gan ddefnyddio Taenlenni [Cymraeg, Plas Menai]	16/01/2019	Plas Menai, Caernarfon
Cyfarfod Rhwydwaith Saesneg Uwchradd – 16/1/19 – Venue Cymru, Llandudno	16/01/2019	Venue Cymru, Llandudno

1C Ymsefydlu i ANG [Wrecsam]	17/01/2019	Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam
Modelu Effeithiol gan ddefnyddio Taenlenni [Saesneg, Yr Wyddgrug]	17/01/2019	GwE, Linden House, Mold

## Rhaglenni Datblygu GwE

### Sesiynau Gwybodaeth CALU

#### AR GYFER CYMORTHYDDION DYSGU A'U PENAETHIAID / RHEOLWYR

Mae croeso i chi fynychu unrhyw un o'r sesiynau sydd wedi'u rhestru [yma](#) ar ein gwefan.

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â: [calu@gwegogledd.cymru](mailto:calu@gwegogledd.cymru) 01286 679976

### Cyfarfod Rhwydwaith Saesneg Uwchradd

#### DYDD MERCHER, 16 IONAWR 2019 – VENUE CYMRU, LLANDUDNO

Ffocws cyfarfod y tymor hwn fydd perfformiad mewn Saesneg yn CA3 ac, yn arbennig, sut y gallwn wella safonau mewn ysgrifennu.

Bydd hwn yn ddiwrnod llawn ac yn addas i Benaethiaid Saesneg neu Arweinwyr Pwnc CA3.

Cysylltwch ag [Annalloydwilliams@gwegogledd.cymru](mailto:Annalloydwilliams@gwegogledd.cymru) os oes gennych gwestiynau pellach.

**COFRESTRWCH DRWY G6.**

### Gwyddoniaeth – Ennyn Diddordeb Dysgwyr [Uwchradd – Dwyieithog – Cyffordd

#### Llandudno]

#### DYDD MAWRTH, 26 MAWRTH 2019 – CANOLFAN FUSNES CONWY, CYFFORDD LLANDUDNO

Darperir y cwrs hwn gan athrawon Gwyddoniaeth Ysgol Eirias fel rhan o'r Rhaglen Gwyddoniaeth Hwb ar gyfer ysgolion.

**COFRESTRWCH DRWY G6.**

## Cyfleoedd gyda GwE

### Swyddog Cyllid Cefnogol [Dros Dro]

#### HYD AT 31/08/2019 [LLAWN AMSER – OND GELLIR YSTYRIED CEISIADAU AM WEITHIO RHAN AMSER]

**Mae'r gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.**

#### HYSBYSEB SWYDD – SWYDDOG CYLLID [CYFNOD MAMOLAETH]

#### DYDDIAD CAU: 10:00YB, DYDD IAU, 13 RHAGFYR 2018

Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â Sion Wyn Evans, Rheolwr Busnes [Dros Dro] GwE ar 0300 500 8087 neu anfon e-bost i [sionwynevans@gwegogledd.cymru](mailto:sionwynevans@gwegogledd.cymru)

Am ragor o wybodaeth a ffurflen gais, ewch i [www.gwynedd.gov.uk](http://www.gwynedd.gov.uk) neu cysylltwch ar 01286 679076.

### Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant – STEM [Uwchradd][Llawn Amser] – Ail Hysbyseb

Secondiad neu gytundeb dros dro am flwyddyn yn y lle cyntaf gyda phosibilrwydd o'i ymestyn. Mae hyblygrwydd i drafod hyd y secondiad o fewn oes y prosiect - 1 – 3 ½ mlynedd. Amodau a Thelerau Gwaith Llywodraeth Leol yn berthnasol.

#### HYSBYSEB SWYDD – YMGYNGHORYDD CEFNOGI GWELLIANT – STEM [UWCHRADD] [LLAWN AMSER]

#### SWYDD DDISGRIFIAD - YMGYNGHORYDD CEFNOGI GWELLIANT – STEM [UWCHRADD] [LLAWN AMSER]

Gwahoddir ceisiadau trwy lythyr gan gynnwys CV erbyn 10:00yb, Dydd Iau, 6 Rhagfyr 2018 i

[anwengwilym@gwegogledd.cymru](mailto:anwengwilym@gwegogledd.cymru)

Am sgwrs anffurfiol cysylltwch ag Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar 0300 500 8087 neu anfon e-bost i

[alwynjones@gwegogledd.cymru](mailto:alwynjones@gwegogledd.cymru)

### Cyfieithydd [Dros Dro]

#### DROS DRO – TAN 31/08/2019 [LLAWN AMSER – OND GELLIR YSTYRIED CEISIADAU AM WEITHIO RHAN AMSER NEU RANNU SWYDD]

**Mae'r gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.**

#### HYSBYSEB SWYDD – CYFIEITHYDD [DROS DRO]

#### SWYDD DDISGRIFIAD – CYFIEITHYDD [DROS DRO]

#### DYDDIAD CAU: 10:00 O'R GLOCH, DYDD IAU, 6 RHAGFYR 2018

Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â Sion Wyn Evans, Rheolwr Busnes [Dros Dro] GwE ar 0300 500 8087 neu anfon e-bost i [sionwynevans@gwegogledd.cymru](mailto:sionwynevans@gwegogledd.cymru)

Am ragor o wybodaeth a ffurflen gais, ewch i [www.gwynedd.gov.uk](http://www.gwynedd.gov.uk) neu cysylltwch ar 01286 679076.

## Cynadleddau a Chyfleoedd gan Eraill

*Gwelwch isod fanylion y cyfleoedd a allai fod yn ddefnyddiol yn eich hysgol. Sylwch nad yw GwE yn cymeradwyo nac yn sicrhau ansawdd y cyfleoedd isod.*

*Cysylltwch â'r sefydliadau'n uniongyrchol os oes gennych ymholiadau:*

### Ymweliad Feversham – EDAU ★NEWYDD★

DYDD MAWRTH, 29 IONAWR 2019 – YSGOL FEVERSHAM, BRADFORD

Cyfle gwych i athrawon gogledd Cymru i ymweld ag ysgol Feversham a darganfod sut maen nhw'n defnyddio cerddoriaeth i godi safonau.

Rhagor o fanylion i'w cael [yma](#).

### Ysgoloriaethau Sgiliau Economi Gwybodaeth – Prifysgol Bangor

*IMPROVING THE FORECASTING AND INVENTORY MANAGEMENT FUNCTIONS IN CARL KAMMERLING INTERNATIONAL, AN SME IN GWYNEDD [MRes SCHOLARSHIP]*

Cyfle arbennig i unigolyn ymgymryd â gradd meist'r mewn 'Rheoli Gweithrediadau' gydag Ysgol Fusnes Bangor, Prifysgol Bangor.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion [hysbyseb Saesneg yn unig].

## Gwybodaeth Amrywiol ac Arolygon

### Arolwg Sgiliau Iaith Gymraeg ★NEWYDD★

Yn ystod mis Ebrill a mis Mai eleni, anfonwyd linc at holl ysgolion y rhanbarth yn gofyn i holl staff yr ysgolion gwblhau'r Arolwg Sgiliau Iaith Gymraeg.

Bellach mae'r adroddiadau unigol ar gyfer eich hysgol ar gael i chi ar G6. [Cliciwch yma am gyfarwyddiadau ar sut i'w darganfod](#).

Os nad oes adroddiad ar G6 ar gyfer eich hysgol, naill ai ni chafwyd yr un ymateb i'r arolwg / dim ond un sydd wedi ei gwblhau neu nid yw'r nifer o ymatebion yn gynrychioladol o'ch hysgol.

Os mai dyma'r achos, bydd eich Cyfarwyddwr Addysg yn cysylltu â chi gyda chyfarwyddiadau ar gyfer cyfle ychwanegol i'w gwblhau.

Anfonwch unrhyw ymholiadau pellach i [ArolwgSgiliauIaithGymraeg@gwegogledd.cymru](mailto:ArolwgSgiliauIaithGymraeg@gwegogledd.cymru)

### Cronfa Datblygu Dawns Celfyddydau ac Addysg – EDAU ★NEWYDD★

DYDDIAD CAU: DYDD LLUN, 10 RHAGFYR 2018

Mae Cronfa Datblygu Dawns Celfyddydau ac Addysg EDAU am ddatblygu hyder, sgiliau a phrofiad dawns athrawon drwy gydweithio â sefydliadau diwylliannol neu ymarferwyr dawns.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

### Cyflwyniad i Asesiadau Personol

Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno asesiadau personol ar-lein o'r flwyddyn academiaidd hon ymlaen a byddant yn disodli'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol dros gyfnod o dair blynedd.

[Parhau i ddarllen, cliciwch yma...](#)

### Bwrdd Gwaith Ieuentid Dros Dro Cymru

CYFLE I BOBL IFANC CYMRU DDWEUD EU DWEUD AM WAITH IEUENTID GYDA BWRDD GWAITH IEUENTID DROS DRO NEWYDD CYMRU

Fel rhan o'u gwaith, mae'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro newydd yn cydnabod pwysigrwydd llais y person ifanc wrth ddatblygu strategaeth ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru, a hynny er mwyn eu galluogi i ddeall yr hyn sy'n bwysig i bobl ifanc, sut y maent yn teimlo am y gefnogaeth a gânt bellach a pha gefnogaeth yr hoffent ei chael yn y dyfodol. Fel y cam cyntaf yn y broses hon, maent wedi datblygu arolwg pobl ifanc.

**Cliciwch yma** am ragor o fanylion ac i gymryd rhan.

## **Adroddiad gan Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd [OECD]**

Mae adroddiad diweddar a gyhoeddwyd gan Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd [OECD], *Datblygu Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yng Nghymru*, yn asesu i ba raddau y mae ysgolion yng Nghymru wedi datblygu fel sefydliadau sy'n dysgu.

**Cliciwch yma** i ddysgu mwy.

## **Cystadleuaeth "Premier League Writing Stars"**

Mae Cystadleuaeth farddoniaeth *Premier League Writing Stars* yn dychwelyd am yr ail flwyddyn i ysbrydoli plant rhwng 5 ac 11 oed i fod yn greadigol a chreu cerddi ar y thema Amrywiaeth.

I ddarganfod rhagor ac am wybodaeth ar sut i gyflwyno cerdd, ewch i [plprimarystars.com](http://plprimarystars.com)

## **Categori Cenedlaethol 2018-2019**

Bydd Categori Cenedlaethol yn parhau ar gyfer 2018-2019. Mae'r [canllawiau atodol](#) yn rhoi cyngor i ysgolion, consortia ac ymgynghorwyr cefnogi gwelliant ar sut y dylid cymhwyso'r dyfarniad mewn perthynas â'r gallu i wella a'r penderfyniad ynghylch y categori cymorth mewn achosion lle y gall bod angen ystyried ffactorau cyd-destunol a ffactorau eraill.

**Cliciwch yma** i weld yr amserlen.

## **Cofiwch ddilyn @GwEGogleddCymru ar Twitter**



## **GwEGogledd.Cymru**

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n [gwefan](#)

Rydym wedi diweddarau ein polisi preifatrwydd i adlewyrchu newidiadau i'r ddeddf gwarchod data. Gallwch weld y polisi [yma](#) Rydych wedi tanysgrifio i dderbyn bwletin GwE. Fodd bynnag, os nad ydych yn dymuno derbyn y bwletin rhagor gallwch ddatdanysgrifio drwy gysylltu â [bwletin@gwegogledd.cymru](mailto:bwletin@gwegogledd.cymru) yn nodi'r cyfeiriad e-bost sydd wedi'i gofrestru.

